



2013

# ADOLYGIAD BLYNYDDOL

CARDIFF  
UNIVERSITY  
PRIFYSGOL  
CAERDYDD



# RHAGAIR GAN YR IS-GANGHELLOR

Dros y 12 mis diwethaf, mae Prifysgol Caerdydd wedi gwneud cynnydd ar gyflymder nad oeddwn i, hyd yn oed, yn dychmygu y byddai'n bosibl pan gychwynnom am y tro cyntaf ar ein cyfeiriad strategol pum mlynedd, *Y Ffordd Ymlaen*.

Mae *Y Ffordd Ymlaen* yn amlinellu ein huchelgais mewn pedwar maes blaenoriaeth: ymchwil, addysg, cydwladoli ac ymgysylltu. Ein nod gor-redol, wrth ganolbwyntio ein hymdrechion ar y pedwar maes hwn, yw gosod Caerdydd yn gyson ymhlith y 100 o brifysgolion gorau yn y byd ac yn yr 20 gorau yn y DU. Cyn i mi amlygu'r datblygiadau ym mhob un o'r meysydd hyn, mae'n rhaid i mi sôn am un prosiect allweddol sydd wedi mynd ag amser ac egni llawer o'r staff yn yr Ysgolion a'r gwasanaethau proffesiynol.

Y Fframwaith Rhagoriaeth mewn Ymchwil yw'r mecanwaith a ddefnyddir i asesu ansawdd yr ymchwil mewn sefydliadau addysg uwch yn y DU. Mae ei ganlyniadau nid yn unig yn arwain penderfyniadau hanfodol o ran cyllid ond yn gweithredu fel llinyn mesur ar gyfer enw da prifysgol. Bu Caerdydd yn paratoi ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth mewn Ymchwil ers tipyn o amser, ac mae tîm craidd sy'n ymgorffori arbenigedd ar draws y Brifysgol wedi gweithio'n ddiflino i ffurfio a chydlynu cyflwyniad Caerdydd. Rwy'n hynod o ddiolchgar i'r holl staff am eu gwaith caled. Byddwn yn cael gwybod am y canlyniadau ar ddiwedd 2014, ac rwyf yn edrych ymlaen at roi'r newyddion diweddaraf am y rheiny i chi yn yr *Adolygiad Blynyddol* y fwydyddyn nesaf.

I ddod yn ôl at *Y Ffordd Ymlaen*, mae'n dda gennyf ddweud, nid yn unig fod y pedair thema flaenoriaeth wedi'u hymgorffori yn niwyllyant y Brifysgol, ond ein bod wedi gwneud cynnydd gwirioneddol ym mhob maes.

Er mwyn helpu i wireddu nodau ein strategaeth ymchwil, buom mewn partneriaeth â phrifysgolion Caerfaddon, Bryste a Chaerwysg er mwyn lansio'r cynghrair GW4. Mae'r cynghrair hwn nid yn

unig yn cryfhau ein galluedd o ran ymchwil ond yn ein gosod yn fwy manteisiol yn erbyn prifysgolion eraill drwy gyfuno ein harbenigedd. Mae hefyd yn creu cyfleoedd newydd ar draws sefydliadau ar gyfer staff a myfyrwyr fel ei gilydd.

Rydym wedi gweld cydnabyddiaeth fawreddog, genedlaethol ar gyfer gwaith y Ganolfan Ymchwil Geomgylcheddol, a enillodd Wobr Pen-blwydd y Frenhines ar gyfer ei hatebion arloesol i heriau ynni y byd a mynd i'r afael ag effeithiau parhaol gweithgarwch diwydiannol. Hefyd, cydnabuwyd unigolion am eu cyfraniadau pwysig i'w meysydd: dau ohonynt oedd Yr Athro Graham Hutchings, FRS FLSW, Ysgol Cemeg a Chyfarwyddwr y Sefydliad Catalysis, a'r Athro Peter Wells, CBE FRS FEng FMedSci FLSW, yr Ysgol Beirianneg, a dderbyniodd wobrau i gydnabod eu cyflawniadau o ran ymchwil gan y Gymdeithas Frenhinol.

Ar draws y Brifysgol i gyd bu enghreifftiau o'r ymchwil ragorol y mae Caerdydd yn haeddiannol adnabyddus amdani. Ymddangosodd ein hastudiaeth 35 blynedd ar ddementia ym mhenawdau'r newyddion rhyngwladol ar ôl iddi adnabod pum arfer iachus y dangosir eu bod yn lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â'r salwch hwn. Yr un oedd hanes darganfyddiad gan Yr Athro Julie Williams a ddaeth o hyd i 11 o enynnau newydd sy'n gysylltiedig â chlefyd Alzheimer. Arweiniodd gwyddonwyr Caerdydd ddarganfyddiad nwy nobl yn y gofod, ac yma ar y Ddaear, helpodd ein harchaeolegwyr i ddatgelu sut beth oedd bywyd yn Ham Hill, sef bryngaer fwyaf y DU, ryw 2,500 o flynyddoedd yn ôl.

Un o'n nodau yn *Y Ffordd Ymlaen* oedd mynd ag addysg ansawdd uchel Caerdydd allan i'r byd. Yn 2013 aethom i bartneriaeth

gyda *FutureLearn* i helpu i ddatblygu ein Cwrs Ar-lein Agored Enfawr cyntaf. Mae'r Cysiau Ar-lein Agored Enfawr hyn yn rhoi cyfle i bobl ledled y byd brofi ac i elwa ar ein harbenigedd. *Muslims in Britain* yw ein cyrch cyntaf i'r profiad addysgol byd-eang hwn a bydd cwrs *Newyddiaduriaeth Gymunedol* yn dilyn, sy'n cynnig sgiliau a mewnwelediad ymarferol i'r sector dynamig hwn sy'n tyfu'n gyflym.

Gan gyflawni ein dyheadau addysgol a rhyngwladol, cyflwynwyd ein rhaglen *leithoedd i Bawb*. Bydd yn rhoi cyfle i bob myfyriwr i astudio iaith dramor fodern, yn rhad ac am ddim, ochr yn ochr â'u gradd. Mae hyn yn gwella yn fawr yr hyn sydd gan Gaerdydd i'w gynnig i ddarpar fyfyrwyr, yn ogystal â rhoi'r hyder a'r sgiliau sydd eu hangen ar fyfyrwyr i weithio, astudio neu wirfoddoli dramor.

Yn ogystal, datblygodd ein hymrwymiad i dyfu enw da Caerdydd yn rhyngwladol. Agorom swyddfeydd yn India a Tsieina er mwyn hybu ein presenoldeb yn y gwledydd hyn ac ymgysylltu myfyrwyr â'r Brifysgol a'i gwaith. Bydd ein Canolfan Cyfleoedd Byd-eang, a fydd yn lansio'n ddiweddarach eleni, yn ein helpu i gyrraedd ein targed o 17 y cant o ran symudedd myfyrwyr, a fydd yn helpu i ehangu profiadau diwylliannol ein myfyrwyr a chynyddu eu cyflogadwydd.

Yn ogystal, cafodd pum prosiect blaenllaw a fydd yn arwain ein gweithgaredd ymgysylltu dros y pum mlynedd nesaf eu cyhoeddi yn 2013. Dyma nhw: creu canolfannau er mwyn cefnogi prosiectau newyddiaduriaeth cymunedol yng Nghymru; rhaglen *Cymru dros Affrica* sy'n adeiladu ar ein cysylltiadau gydag Affrica Is-Saharaidd a'i nod yw datblygu ffyrdd newydd ac arloesol o gefnogi'r rhanbarth; datblygu Rhanbarth-



Ddinas yn ne-ddwyrain Cymru er mwyn helpu i ailgysylltu awdurdodau'r Cymoedd a chreu rhanbarth economaidd cynaliadwy a bywiog, mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd a Llywodraeth Cymru; prosiect *Cymunedau Cryf*, *Cymunedau Iach* a fydd yn adeiladu ar etifeddiaeth deg mlynedd ar ymchwil yn y gymuned ym Merthyr Tudful; a'r prosiect *Porth Cymunedol* a fydd yn creu cysylltiadau rhwng y Brifysgol a'r gymuned yn Grangetown ac ailsefydlu rôl hanesyddol y Brifysgol fel sefydliad dinesig yng Nghaerdydd.

Mae ymdrech enfawr gan y staff wedi tanategu'r holl gynnydd hwn. Rwy'n ddiolchgar i gymuned y Brifysgol am y ffordd rwydd y mae wedi ymdopi â newid mor gyflym. O ran strwythur, mae Caerdydd yn Brifysgol wahanol iawn o'i chymharu â deuddeng mis yn ôl. Rydym wedi creu tri Choleg newydd sy'n dod ag Ysgolion ynghyd ac yn darparu mwy o gydlyniant a ffocws. Yn ogystal, mae'r campws wedi tyfu, wrth i'r Adeilad Hadyn Ellis newydd agor ar Ffordd Maendy. Mae'r datblygiad yn ffurfio

cam cyntaf ein prosiect buddsoddi cyfalaf, a fydd yn moderneiddio'r campws ac yn rhoi mynediad at ofod o'r radd flaenaf, sy'n eu caniatáu i ddatblygu eu syniadau, a rhyngweithio gydag eraill yn y gymuned ymchwil a phartneriaid busnes. Yn ogystal, yn 2013, dechreuodd y gwaith adeiladu ar gyfleusterau addysgu £13.5M newydd Ysgol Fusnes Caerdydd. Pan fydd wedi'i chwblhau, bydd yr adeilad yn cynnig man masnachu gyda 60 sedd, swit addysg weithredol, darlithfeydd, manau astudio hyblyg a chyfleusterau pwrpasol ar gyfer cynnal cynadleddau a digwyddiadau ar gyfer pobl fusnes a'r rhai sy'n llunio polisiau. Yn ogystal, gwnaed polisi ar ein neuadd breswyl newydd, sef, Talybont Gate. Mae hwn yn brosiect dylunio ac adeiladu £6.4M ar chwe llawr a fydd yn darparu llety ar gyfer 179 o fyfyrwyr o ddechrau'r flwyddyn academaidd 2014.

Gan edrych ar y flwyddyn o'n blaenau, mae ein cynlluniau'n uchelgeisiol. Mae adeilad CUBRIC 2 (Canolfan Delweddu Ymchwil i'r Ymennydd) newydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor. Yn ogystal, mae gennym gynlluniau

i wella'r cyfleusterau Llyfrgell a Mannau Astudio a datblygu Canolfan Economi Digidol a Diwylliannau Creadigol. Rydym hefyd yn gweithio ar System Arloesi Caerdydd, sy'n brosiect blaenllaw a fydd yn sicrhau bod arloesi'n cael ei ymgorffori ledled y Brifysgol, boed hynny'n datblygu technolegau neu gyffurfiau a allai gynhyrchu cwmnïau deillio neu helpu graddedigion i gychwyn busnesau newydd, gan weithio gyda phartneriaid masnachol neu ffurfio polisiau newydd.

Yn 2013, gwnaethom osod sylfeini cadarn ar gyfer y dyheadau a restrir yn *Y Ffordd Ymlaen*, ac mae Caerdydd mewn sefyllfa dda i gyflawni ei nodau. Yn y tudalennau canlynol, byddwch yn gweld ychydig o'r cerrig milltir sy'n dangos hanes y deuddeg mis diwethaf. Mae llawer mwy o ragoriaeth, arloesedd a llwyddiant na allai gael ei gynnwys yn y lle cyfyngedig sydd gennym yma. Rwy'n gobeithio eich bod yn mwynhau darllen yr *Adolygiad Blynyddol* hwn, ac rwy'n edrych ymlaen at adrodd am gynnydd a llwyddiant parhaus y flwyddyn nesaf.

# FLWYDDYN MEWN LLUNIAU



## MYNNWCH AIR

Lansiwyd yr ymgyrch *Mynnwch Air* er mwyn atal y cynnydd o ran goryfed mewn pyliau ac anafiadau ac afiechydon sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru. Bydd yr ymgyrch yn cyflwyno rhaglen ymyrryd fer gynaliadwy ar alcohol yn genedlaethol, gyda'r nod o leihau nifer y derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag alcohol.




## YSGOLHEIGION MARSHALL

Ymwelodd mwy na 60 o fyfyrwr mwyaf talentog ac ymroddedig yr UDA â Chaerdydd. Mae Ysgoloriaeth Marshall ar gyfer Americanwyr ifanc sy'n nodedig o ran eu deallusrwydd i astudio yn y DU ac i gael dealltwriaeth o Brydain gyfoes a'i gwerthfawrogi.



## SEFYDLIAD CATALYSIS CAERDYDD

Sefydliad Catalysis Caerdydd yw pedwerydd Sefydliad Ymchwil y Brifysgol. Mae'r dynodiad newydd yn adlewyrchu effaith ei ymchwil wrth fynd i'r afael â heriau bydeang a'r rôl allweddol y bydd yn ei chyflawni i ddatblygu seilwaith rhagoriaeth ymchwil y Brifysgol. Mae gwaith y Sefydliad wedi arwain at nifer o ddatblygiadau mewn prosesau diwydiannol cyflymach, glanach a mwy economaidd.



Hawlfraint: Asiantaeth Gofod Ewrop

## HERIO EIN DEALLTWRIAETH O'R BYDYSAWD

Crynhodd cenhadaeth Planck Asiantaeth Gofod Ewrop, gyda chymorth seryddwyr y Brifysgol, fap mwyaf manwl erioed o gefndir y ficrodon gosmig (y pelydredd a oedd yn weddill o'r Glec Fawr). Mae'r map newydd yn mireinio ein dealltwriaeth o gyfansoddiad ac esblygiad y Bydysawd, ac yn datgelu nodweddion a allai herio sylfeini ein dealltwriaeth bresennol o'i esblygiad.



## ENWI ADEILAD SYR MARTIN EVANS

Cafodd adeilad Ysgol y Biowyddorau ei ailenwi i anrhydeddu ei Ganghellor, Yr Athro Syr Martin Evans FRS, sy'n enillydd Gwobr Nobel. Roedd y digwyddiad yn cyddigwydd ag agoriad swyddogol estyniad avant-garde £4M yr adeilad.



## LLWYDDIANT MEWN CHWARAEON

Llwyddodd myfyrwr Caerdydd i gadw Tarian Timau Prifysgolion Cymru. Mewn arddangosfa drawiadol o chwaraeon, trechodd myfyrwr Caerdydd eu cyfatebwr yn Abertawe ar draws mwy na 20 o chwaraeon, gan gynnwys rhwyfo, Taekwondo a hoci.



## AGOR ADEILAD HADYN ELLIS

Cafodd cyfleuster ymchwil mwyaf blaenllaw £30M y Brifysgol - Adeilad Hadyn Ellis - ei agor yn swyddogol gan Weinidog Llywodraeth Cymru yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Edwina Hart AC. Mae'r cyfleuster cyfoes yn gartref i rai o dimau ymchwil Prifysgol Caerdydd sy'n arwain y byd, gan gynnwys yr Athrofa Ymchwil Ewropeaidd ar gyfer Bôn-gelloedd Canser; yr Athrofa Ymchwil i Niwrowyddoniaeth ac Iechyd Meddwl; y Ganolfan Cyngor Ymchwil Feddygol ar gyfer Geneteg a Genomeg Niwroseiciatryddol a'r Ganolfan Genedlaethol dros Iechyd Meddwl.



## GWOBRE PEN-BLWYDD Y FRENHINES

Cydnabuwyd gwaith Canolfan Ymchwil Geoamgylcheddol y Brifysgol gyda dyfarniad Gwobr Pen-blwydd y Frenhines ar gyfer Addysg Uwch a Phellach. Mae'r ganolfan sydd yn yr Ysgol Peirianeg, wedi mynd i'r afael ag etifeddiaeth gweithgarwch diwydiannol y gorffennol ac wedi darparu atebion i heriau ynni y byd y dyfodol. Mae Gwobr Pen-blwydd y Frenhines yn gynllun dyfarnu dwyflynyddol, sydd o fewn system anrhydeddu genedlaethol y DU, a hi yw un o ffurfiau mwyaf mawreddog y DU ar gydnabyddiaeth genedlaethol sy'n agored i sefydliad academaidd neu alwedigaethol yn y DU.



## CYMRODORION ANRHYDEDDUS

Roedd dau enillydd Gwobrau Nobel, gwleidydd Prydeinig ac awdur a chyflwynydd teledu ymhlith y rhai a gafodd eu hanrhydeddu gan y Brifysgol yn ein seremoniau gradd blynyddol. Derbyniodd enillwyr Gwobrau Nobel, yr Athro Mario Capecchi a'r Athro Oliver Smithies, Raddau Anrhydeddus i gydnabod eu cyflawniadau academaidd. Ymunodd Barwnes Glenys Kinnock, Kevin McCloud a Richard Parks â chwe unigolyn nodedig o feysydd sy'n cynnwys newyddiauriaeth, meddygaeth a chwaraeon, ymhlith eraill, i dderbyn Cymrodoriaethau Anrhydeddus.



## SYR DAVID ATTENBOROUGH

Ysbrydolodd Syr David Attenborough, y mae ei waith wedi cwmpasu mwy na 60 o flynyddoedd, gynulleidfa o fwy na 1,000 o bobl gyda'i fewnwelediadau personol i rai o'r teuluoedd adar mwyaf rhyfedd, rhagorol a lliwgar.



## CYHOEDDI SEREN GWYDDONIAETH AR GYFER CYMRU

Ymunodd yr Athro Yves Barde ag Ysgol Biowyddorau Caerdydd fel Cadair Ymchwil Sêr Cymru mewn niwrofiolog, fel rhan o fenter gwyddoniaeth flaenllaw £50M Llywodraeth Cymru.



## DARLUNIO BYWYD GYDA HIV

Bu Dr Lisa El Refaie o'r Ysgol Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth yn cydweithio ag elusen addysg iechyd o Dde Affrica, Whizzkids United (WКУ) yn defnyddio cyfrwng anarferol llyfr comics i helpu plant yn eu harddegau gyda HIV yn Ne Affrica i ddog i delerau â'u cyflwr. Bu'r plant yn eu harddegau'n llunio sribedi comics i fynegi eu teimladau a'u profiadau o fyw gyda HIV.

# YMCHWIL

Mae ymchwil, arloesedd a menter wrth wraidd popeth rydym yn ei wneud yng Nghaerdydd. Mae ein hymchwil yn creu effaith bwysig yn fyd-eang, o wella cysylltiadau llafur ym mhorthladdoedd y byd i ddarparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer y gwaith pwysig o gyflwyno gwiriadau iechyd yn raddol ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu.

Mae ein henw da rhyngwladol cynyddol yn denu rhai o bobl fwyaf peniog y byd i Gymru. Ynghyd â chydweithredwyr ar draws y byd, rydym yn arwain yr agenda ymchwil, gan weithio i gynnig atebion i rai o heriau mawr y byd, o fynd i'r afael â chlefyd Alzheimer i sicrhau amgylchedd cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## CYNGHRAIR GW4

Mae GW4, gweithgarwch cydweithredu Caerdydd gyda thair o brifysgolion mwyaf blaenllaw o ran ymchwil de-orllewin Lloegr (Caerfaddon, Bryste a Chaerwysg), yn creu 'màs critigol o ran gwybodaeth' ac yn helpu Caerdydd a Chymru i gystadlu'n well ar gyfer mwy o incwm ymchwil.

Mae'r prifysgolion yn gweithio ar draws yr holl weithgarwch academaidd, gan agor mwy o gyfleoedd i gydweithredu mewn meysydd cyffredin ymchwil a seilwaith ymchwil, adnoddau a chyllid, buddsoddi cyfalaf ar y cyd, hyfforddiant doethurol a phenodiadau staff ar y cyd.



## DARGANFOD GENYNNAU SY'N CARIO RISG O GLEFYD ALZHEIMER YN YR ASTUDIAETH FWYAF ERIOED

Yn yr astudiaeth fwyaf erioed o'i bath, datgelodd cydweithredwyr o wyddonwyr rhyngwladol a arweiniwyd ar y cyd gan Gaerdydd 11 o enynnau tueddiad sy'n gysylltiedig â chlefyd Alzheimer. Bydd y darganfyddiad pwysig hwn yn cynyddu gwybodaeth gwyddonwyr am glefyd Alzheimer yn sylweddol. Mae'n agor trywyddion ymchwil newydd ac yn galluogi gwell ddealltwriaeth o brosesau swyddogaethol di-drefn y clefyd.

Mae'r ymchwil, sy'n cael ei hariannu'n rhannol gan y Cyngor Ymchwil Feddygol, Llywodraeth Cymru ac Ymchwil Clefyd Alzheimer y DU, yn adeiladu ar yr astudiaeth dadansoddiad cysylltu ledled y genom sydd wedi darganfod, ers 2009, ddeg o enynnau y gwyddys eu bod yn gysylltiedig â chlefyd Alzheimer.

## CYLLID MWYAF ERIOED GAN YMDDIRIEDOLAETH WELLCOME

Mae'r Athrofa Niwrowyddoniaeth ac Iechyd Meddwl wedi sicrhau ei gyllid mwyaf erioed mewn ymdrech i uno gwyddonwyr er mwyn mynd i'r afael â salwch meddwl. Sicrhaodd tîm o'r athrofa ddyfarniad strategol o £5.2M gan Ymddiriedolaeth Wellcome er mwyn ceisio cyfuno'r darganfyddiadau diweddaraf o ran geneteg, delweddu'r ymennydd, modelau anifeiliaid a bôn-gelloedd. Mae niwrowyddonwyr, biolegwyr bôn-gelloedd, seicolegwyr a seiciatryddion yn barod i chwalu rhwystrau gwyddonol er mwyn ceisio datrys dirgelwch salwch meddwl a helpu i ddatblygu triniaethau newydd.

## PÂR O FYD YMCHWIL

Dyfarnwyd Cymrodoriaethau Ymchwil mawreddog gan Leverhulme i haneswyr sy'n wr a gwaig, sef Yr Athro Kevin Passmore a Dr Garthine Walker, o'r Ysgol Hanes, Archaeoleg a Chrefydd er mwyn symud eu meysydd ymchwil ymlaen. Bydd Dr Walker, sy'n Ddarllenydd Hanes, yn ymchwilio ac yn ysgrifennu hanes treisio a thrais rhywiol yng Nghymru a Lloegr, a bydd Yr Athro Passmore yn dechrau ei ymchwil bwysig ar y Llinell Maginot mewn Hanes, Diwylliant a Chof.





## DARGANFOD MOLECIWL NWWY NOBL YN Y GOFOD

Darganfu tîm sy'n cynnwys seryddwyr o Gaerdydd foleciwl sy'n cynnwys nwy nobl yn y gofod. Cyflawnwyd hyn gan ddefnyddio offeryn a arweinir gan Gaerdydd ar fwrdd Arsyllfa Gofod Herschel Ewrop. Gwelwyd y moleciwl, sef argon hydrid, yn Nifwl y Cranc, gweddillion seren a ffrwydrodd fil o flynyddoedd yn ôl. Cyn ei ddarganfod, dim ond mewn labordai ar y Ddaear yr oedd moleciwlau o'r fath wedi'u hastudio, a oedd yn arwain seryddwyr i gymryd nad yw'r amodau cywir yn bodoli yn y gofod.

## CYFLAWNIAD CONCRID

Ennillodd Dr Diane Gardner o'r Ysgol Peirianeg, gwobr yn yr Wyl Wyddoniaeth Brydeinig ar gyfer ei gwaith ar goncrid sy'n hunanadfer. Mae Dr Gardner yn rhan o grŵp ymchwil sydd wedi bod yn gweithio tuag at roi'r gallu i goncrid synhwyro ac ymateb i ddifrod o fewn ei seilwaith ei hun. Gallai'r darganfyddiad gael effaith fawr ar osodiadau concrid ledled y byd, gan dorri costau atgyweirio'n sylweddol a lleihau eu hól-troed carbon.

## YMCHWIL AR GYDRADDOLDEB SY'N TORRI TIR NEWYDD

Cydweithredodd tîm Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol gyda Race Equality First ar brosiect tair blynedd a oedd yn torri tir newydd, sef Prosiect Ymchwil Cymru Gyfan ar Droseddau Casineb, a ddarganfu fod troseddau casineb yn realiti pob dydd i lawer o bobl yng Nghymru.

Cafodd darganfyddiadau'r astudiaeth fwyaf erioed ar droseddau casineb yng Nghymru a Lloegr eu lansio yn y Senedd. Maent yn darparu toreh o ddata ar natur ac effaith troseddau casineb a byddant yn darparu gwybodaeth bwysig am sut mae pobl yn adrodd am droseddau casineb, ac, yr un mor bwysig, pam maent yn methu ag adrodd mor aml.

# ADDYSG

Caiff ein myfyrwyr eu denu i Gaerdydd o bob cwr o'r byd - wedi'u tynnu gan gyrsiau arobryn a chyfleusterau o'r radd flaenaf. Ein nod yw darparu profiad cadarnhaol sy'n cyfoethogi i'n holl fyfyrwyr, beth bynnag yw eu rhwystrau cymdeithasol, gofodol neu ariannol. Mae addysg gan Brifysgol Caerdydd wedi'i chynllunio i gefnogi ein myfyrwyr fel dysgwyr, gan eu galluogi i fynd allan i'r byd a chyflawni eu llawn botensial.

## MYFYRWYR BODLON

Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yw'r mwyaf bodlon gyda'u profiad addysgiadol yng Nghymru o hyd. Mae'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol blynyddol yn gofyn i fyfyrwyr israddedig farcio profiad yn y Brifysgol mewn perthynas ag amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys addysgu, asesu, cymorth academiaidd a datblygiad personol. Dywedodd 89% o fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd eu bod nhw'n fodlon yn gyffredinol gyda'u profiad fel myfyrwyr. Mae'r ffigwr hwn yn golygu bod Caerdydd yn uwch na'r cyfartaledd sector ar gyfer y DU, sy'n 86%.

## CAM MAWR I GAERDYDD

Datganodd y Brifysgol ei phartneriaeth â *FutureLearn*, darparwr Cyrsiau Ar-Lein Agored Enfawr (MOOCs) cyntaf y DU, sy'n cynnig mynediad rhad ac am ddim at gyrsiau o ansawdd i ddysgwyr o bedwar ban byd. Dywedodd yr Athro Patricia Price, Dirprwy Is-ganghellor, Profiad Myfyrwyr a Safonau Academiaidd Prifysgol Caerdydd: "Rydym ni'n falch o fod ymhlith y prifysgolion cyntaf i ymuno â *FutureLearn* ac arwain y sector yng Nghymru".



## STEPHEN FRY YN ARCHWILIO STRYD FAWR Y MYFYRWYR



Adroddodd a serennodd yr awdur, actor a chomedïwr, Stephen Fry, sy'n Gymrawd Anrhydeddus o'r Brifysgol, mewn tair fflm fer wedi'u hanimeiddio i gynorthwyo myfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n dychwelyd i gael mwy o wybodaeth am sut i ofalu am eu hiechyd, lles a rhoi hwb i'w cyflogadwyedd.

Lleolir Stryd Fawr y Myfyrwyr ym Mhlas y Parc ac yno mae modd i fyfyrwyr gael cymorth i gael at yr ystod eang o wasanaethau sydd ar gael i gefnogi eu hiechyd a'u lles, rhoi hwb i'w cyflogadwyedd a'u helpu nhw i fanteisio i'r eithaf ar brofiad Prifysgol Caerdydd: Canolfan Cymorth i Fyfywyr, sy'n darparu cyngor ac arweinyddiaeth broffesiynol; Desg Gwasanaeth TG; y Caplaniaethau; Canolfan Iechyd y Brifysgol; Undeb y Myfyrwyr; Canolfan y Graddedigion, yn ogystal â'r swyddfa ddiogelwch 24 awr.

## BLWYDDYN ARDDERCHOG I'R RHAGLEN CYFLEOEDD YMCHWIL

Ymgeisiodd y nifer fwyaf erioed o fyfyrwyr am le ar Raglen Cyfleoedd Ymchwil Prifysgol Caerdydd (CUROP), sy'n darparu lleoliadau haf i israddedigion yn amgylcheddau ymchwil y Brifysgol. Mae'r rhaglen yn darparu cyfleoedd unigryw i fyfyrwyr flasu ymchwil fyw, gwella'u sgiliau academiaidd a gwneud penderfyniad mwy hyddysg o ran gwneud gwaith ymchwil ar lefel ôl-raddedig. CUROP yw un o'r cynlluniau ymchwil mwyaf i israddedigion yn y DU. Mae'r rhaglen yn cynnig cyflog i gefnogi myfyrwyr ar leoliad hyd at wyth wythnos o hyd, gan weithio o dan oruchwyliaeth ar brosiectau ymchwil a ddiffinnir gan aelodau staff.

## DATBLYGU MEDDYGON Y DYFODOL

Croesawodd yr Ysgol Feddygaeth fyfyrwyr cyntaf rhaglen C21, cwricwlwm radical newydd wedi'i greu er mwyn denu, hyfforddi a chadw'r meddygon gorau yng Nghymru. C21 yw'r trawsnewid mwyaf o ran addysg feddygol yn y Brifysgol ers sefydlu'r Ysgol ym 1921. Mae'r cwricwlwm newydd yn anelu at feithrin meddygon o'r radd flaenaf sy'n meddu ar empathi dwysach at gleifion a dealltwriaeth wyddonol ardderchog trwy gyflwyno mwy o ddysgu sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Ategir C21 gan ymrwymiad i greu amgylchedd addysgiadol sydd ar flaen y gad ac sy'n cynnwys arfer gorau yn seiliedig ar dystiolaeth a fydd yn arwain at ofal cleifion o'r radd flaenaf.





## HWB AR GYFER Y GENHEDLAETH NEWYDD O YMCHWILWYR Y CELFYDDYDAU A'R DYNIAETHAU

Enillodd Prifysgol Caerdydd gyllid sylweddol ar gyfer y celfyddydau a'r dyniaethau ar y cyd, er mwyn cefnogi astudiaethau ôl-raddedig i'n byd diwylliannol.

Dyfarwyd cyllid o £14.2M i Gonsortiw y De, y Gorllewin a Chymru, lle mae Caerdydd wedi'i huno gyda saith prifysgol arall, gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau er mwyn cynnal goruchwyliaeth, hyfforddiant a datblygiad sgiliau i ôl-raddedigion dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r Consortiw yn un o 11 o Bartneriaethau Hyfforddiant Doethurol a saith o Ganolfannau Hyfforddiant Doethurol i gael dyfarniad o gyfanswm o £164M o gyllid gan y Cyngor.

## DOSBARTH 2013

Graddiodd rhyw 7,000 o fyfyrwyr, o fwy na 88 o wledydd gwahanol, gan rannu eu cyflawniad gyda dros 15,000 o aelodau eu teuluoedd a ffrindiau. Ymhlith yr hanesion lu am lwyddiant academiaidd oedd chwaraewr rygbi rhyngwladol ac athrylith 18 oed mewn mathemateg. Graddiodd Jamie Roberts, y chwaraewr rhyngwladol dros Gymru ac un o Lewod Prydain ac Iwerddon, gydag anrhydedd mewn meddygaeth, ar ôl wyth mlynedd o ymdopi ag astudio'n rhan-amser a chwarae rygbi'n broffesiynol dros ei glwb a'i wlad. Gwnaed myfyriwr lefel uwch, sef Alex Thorne, yn Feistr mewn Athroniaeth ar ôl cwblhau gradd ôl-radd ran-amser am dair blynedd, yn seiliedig ar ymchwil yn yr Ysgol Mathemateg.

## CANOLFAN HYFFORDDI DOETHUROL MEWN CATALYDDU

Sicrhodd Caerdydd gyfran o gronfa £350M y Cyngor Ymchwil Peirianeg a'r Gwyddorau Ffisegol i hyfforddi myfyrwyr ôl-raddedig mewn peirianeg a'r gwyddorau ffisegol. Mae'r gronfa, sef y buddsoddiad mwyaf erioed o ran hyfforddiant ôl-radd mewn peirianeg a'r gwyddorau ffisegol, wedi'i chynllunio i gysylltu ymchwilwyr gyda phartneriaid allweddol mewn diwydiant a chyda thechnolegau pwysig, sy'n cynorthwyo arloesedd a thwf. Mae Caerdydd yn arwain y Ganolfan Hyfforddiant Doethurol mewn Catalyddu, sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf y gymdeithas drwy gatalyddu: cynhyrchu ynni glân, glanhau awyr a dŵr yn amgylcheddol a gweithgynhyrchu cynaliadwy.

# YMGYSYLLTU

Yng Nghaerdydd, rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb dros wneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl a chymunedau ein cenedl. Mae gan ein hymchwil berthynas uniongyrchol â'r polisiau, sy'n cael effaith uniongyrchol ar fywydau pob dydd y bobl. Mae ein hymchwilwyr yn mynd â'u gwaith at bobl y DU, sy'n galluogi cymunedau lleol i sefydlu safleoedd newyddion hyperleol, ac yn caniatáu i blant archwilio rhyfeddodau'r Bydysawd yn eu hystafelloedd dosbarth. Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio ein harbenigedd mewn ymchwil i ddatblygu ffyrdd newydd sbon ac arloesol i gefnogi prosiectau yn Affrica, gan ddod â ffyniant a thwf i'r rhanbarth.

## BRAIN GAMES

Croesawodd y Brifysgol fwy na 2,600 o blant a'u teuluoedd i'r digwyddiad *Brain Games* a gynhaliwyd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Roedd *Brain Games*, a grëwyd gan niwrowyddonwyr ym Mhrifysgol Caerdydd ac a gafodd ei ariannu gan Ymddiriedolaeth Wellcome, yn cynnwys cyfres o heriau rhyngweithiol ar gyfer plant rhwng 8 ac 11 oed er mwyn darganfod rhagor am sut mae eu hymennydd yn gweithio. Mae *Brain Games* yn rhan o brosiect cynaliadwy, a drefnwyd gan ymchwilwyr niwrowyddonol ym Mhrifysgol Caerdydd a chafwyd ymgysylltiad ac allgymorth mewn cymunedau ac ysgolion lleol.



## THE CONVERSATION

Mae mwy na chwarter miliwn o ddarllenwyr newydd wedi ymgysylltu ag ymchwil sy'n arwain y byd a sylwebaeth arbenigol y Brifysgol, diolch i offeryn ar-lein newydd a gynlluniwyd i ddod ag academyddion a newyddiadurwyr yn agosach.

Mae Prifysgol Caerdydd yn un o sylfaenwyr *The Conversation*, sef gwefan newyddion a sylwebaeth annibynnol sy'n gweithio gydag awduron academaidd i ryddhau eu harbenigedd, ei gymhwyso i faterion pynciol, a sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd.

## Y BYDYSAWD YN YR YSTAFELL DDOSBARTH

Mae Dr Haley Gomez o'r Ysgol Ffiseg a Seryddiaeth wedi cychwyn ar genhadaeth i ddefnyddio seryddiaeth i ysbrydoli cenhedlaeth newydd o wyddonwyr. Mae *The Universe in your Classroom* yn brosiect sydd â'r nod o ymgysylltu â 100 o athrawon a mwy na 1,400 o ddisgyblion ysgolion cynradd Cymru. Bydd y fenter yn cyflogi tîm o fodolau rôl – sy'n amrywio o fyfyrwyr seryddiaeth israddedig i seryddwyr proffesiynol – a fydd yn ymweld ag ystafelloedd dosbarth ym mhob cwr o Gymru (gan gyrraedd 60,000 o ddisgyblion dros ddegawd). Byddant yn dod â rhyfeddodau'r Bydysawd i'ch ystafell ddosbarth, drwy gyfuno offer addysgu a thechnoleg arloesol gan gynnwys telesgopau robotaid, dysgu sy'n seiliedig ar ymholi a pheccynau *Bydysawd-mewn-blwch*.

## EISTEDDFOD

Unwaith eto bu gan y Brifysgol bafiliwn yng nghanol Eisteddfod Genedlaethol Cymru – y gred gyffredinol yw mai dyma'r wyl ddiwylliannol hynaf yn Ewrop. Y pafiliwn oedd lleoliad toreth o ddigwyddiadau a gweithgareddau, megis darlithoedd, lansiadau llyfrau a darlenniadau barddoniaeth. Traddododd y Dirprwy Is-ganghellor yr Athro Hywel Thomas FRS araith allweddol yn canolbwyntio ar ei ymchwil arobryn ar gael ynni allan o'r ddaear.

## Y GANOLFAN NEWYDDIADURIAETH GYMUNEDOL

Sefydlodd ein Hysgol Newyddiaduriaeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol ganolbwynt newydd ar gyfer newyddiaduriaeth yng Nghymru, sef y Ganolfan Newyddiaduriaeth Gymunedol. Bydd y Ganolfan, y gyntaf o'i bath i uno ymchwil sy'n arwain y byd gyda dysgu sy'n seiliedig ar arfer, yn helpu i lywio'r maes tuag at ddyfodol cynaliadwy ac arloesol, gan baratoi'r ffordd ar gyfer creu swyddi ac arwain datblygiad newyddiaduriaeth ddigidol. Mae'r gwaith hefyd yn ffocws i un o bum prosiect ymgysylltu blaenllaw y Brifysgol.





# RHYNGWLADOL

Mae Prifysgol Caerdydd yn brifysgol fyd-eang, sydd â ffocws rhyngwladol yn tanategu ein holl weithgareddau. Mae'n hymchwilyr yn cydweithredu gyda phartneriaid rhyngwladol, gan gynhyrchu gwaith ymchwil sydd ag effaith fyd-eang, ac sy'n mynd i'r afael â heriau mawr y byd, o frwydro yn erbyn canser i ddiogelu rhywogaethau mewn perygl.

Rydym wedi ymrwmo i wneud addysg ym Mhrifysgol Caerdydd yn hygyrch ar gyfer pobl o bob cwr o'r byd, beth bynnag yw eu lleoliad daeryddol neu eu sefyllfa ariannol.

## SWYDDFEYDD YN TSIEINA AC INDIA

Er mwyn cefnogi strategaeth *Cydwladoli'r* Brifysgol, cafodd swyddfeydd eu hagor yn ddiweddar yn Tsieina ac India i gefnogi datblygiad blaenoriaethau strategol yn ogystal â chodi proffil byd-eang y Brifysgol. Agorodd dwy swyddfa yn hydref 2013 er mwyn darparu presenoldeb yn Beijing a Hangzhou, ac agorodd y swyddfa yn Delhi ym mis Ionawr 2014. Bydd y swyddfeydd yn cefnogi ymdrechion y Brifysgol i adnabod a datblygu partneriaethau o fewn gwledydd, cefnogi gweithgareddau i gyn-fyfrwyr, meithrin cysylltiadau gyda busnesau a diwydiant, yn ogystal â chefnogi recriwtio myfyrwyr rhyngwladol o ansawdd uchel.



## YSGOLHEIGION FULBRIGHT

Dychwelodd ysgolheigion mwyaf blaenllaw a thalentog America i Gaerdydd fel rhan o Fforwm Fulbright, rhaglen ddiwylliannol flynyddol sydd â phroffil uchel. Croesawodd y Brifysgol 60 o dderbynwyr grant gan Fulbright sydd ar hyn o bryd yn astudio, yn gwneud ymchwil ac yn darlithio yn y DU. Mae Fforwm Fulbright yn cynnig cyfle gwych i'r Brifysgol arddangos ei hun i nifer fawr o ddylanwadwyr posibl y dyfodol a dangosodd y berthynas ragorol gyfredol gyda Fulbright wrth i Gaerdydd groesawu mwy o enillwyr dyfarniadau Fulbright yn 2013 nag unrhyw brifysgol arall yn y DU.

## CRYFHAU EIN CYSYLLTIADAU GYDA TSIEINA

Aeth cynrychiolwyr lefel uchel tua'r Dwyrain er mwyn adnewyddu a gwella proffil rhyngwladol y Brifysgol. Ymgwymerodd yr Is-ganghellor â chyfres o ymrwymiadau proffil uchel a gryfhaodd ymhellach y cysylltiadau sydd gan Brifysgol Caerdydd gyda Tsieina. Roedd yr amserlen yn cynnwys ymweliadau a Prifysgolion Peking, Capital Medical (CMU), Xiamen a Hong Kong. Yn ogystal, bu cyfle i'r Brifysgol ddathlu cyflawniadau cyn-fyfrwyr Caerdydd a chwredd ag arweinwyr busnes o Gymru sy'n gweithio yn Hong Kong.

## YSGOLORIAETHAU RHYNGWLADOL

Cynhaliodd y Brifysgol dderbyniad er mwyn croesawu derbynwyr ysgoloriaethau rhyngwladol, o'r Brifysgol ac o sefydliadau allanol. Roedd y digwyddiad yn gyfle i ddathlu a chydabod y rhan bwysig mae ysgoloriaethau wedi'u chwarae wrth groesawu myfyrwyr o bob cwr o'r byd i astudio yng Nghaerdydd. Llwyddodd y myfyrwyr eithriadol hyn i rannu eu hanesion a'u profiadau.





## O GOEDWIGOEDD GLAW I GREIGRESI

---

Llofnododd Prifysgol Caerdydd ac Adran Bywyd Gwylt Sabah gytundeb i barhau â'u cydweithredu o ran rheoli Canolfan Maes Danau Girang, cyfleuster ymchwil a hyfforddi yn Sabah, Maleisia. Mae estyniad deng mlynedd y cytundeb yn cydnabod y berthynas lwyddiannus iawn rhwng yr Adran a Phrifysgol Caerdydd. Mae'r Ganolfan Maes yn ffocws ar gyfer ymchwil a hyfforddiant ar fioamrywiaeth ac ar gyfer cyrsiau maes ar asesiadau bioamrywiaeth trofannol. Ers ei hagog bum mlynedd yn ôl, mae'r ganolfan wedi croesawu ymchwilwyr a myfyrwyr o bob cwr o'r byd a bellach mae'n gweithio ar nifer o brosiectau ymchwil allweddol ar gadwraeth.

## CYMRU DROS AFFRICA

---


Bydd y Brifysgol yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru fel rhan o'r rhaglen *Cymru dros Affrica* a bydd yn cyfrannu at gyflawni Nodau Datblygu'r Mileniwm yng ngwledydd is-Saharaidd. Hwn fydd y prosiect *Cymru dros Affrica* mwyaf. Nod y Brifysgol yw datblygu partneriaethau strategol gyda dau sefydliad addysg uwch yn y rhanbarth, sy'n cynnig cyfleoedd i'n staff a'n myfyrwyr gyfranogi mewn gwaith datblygu rhyngwladol, sy'n seiliedig ar eu meysydd arbenigedd ac anghenion o'r gwledydd partner.

## CYDWEITHREDU GYDA TSIEINA ER MWYN CREU TRINIAETH WELL AR GYFER CANSER

---

Wrth i Gydsefydliad Oncoleg Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Peking gael ei lansio, bydd rhai o arbenigwyr mwyaf blaenllaw'r ddwy wlad yn dod at ei gilydd er mwyn adeiladu galluedd ymchwil i fynd i'r afael â'r cwestiynau mwyaf taer o ran trechu canser. Bydd y Sefydliad, sydd wedi'i leoli yn Ysgol Feddygaeth y Brifysgol, yn Ysgol Oncoleg Prifysgol Peking ac yn Ysbyty Canser Peking, yn ymgymryd ag ymchwil sy'n rhyngwladol flaenllaw o ran canser a datblygu triniaethau ar gyfer canser. Mae rhagor o gynlluniau ar gyfer addysgu a chydweithredu ymchwil arall gyda Phrifysgol Peking a Phrifysgol Capital Medical hefyd wedi gwneud cynnydd arwyddocaol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.


# PERFFORMIAD ARIANNOL 2012-13



## GRANTIAU A CHONTRACTAU YMCHWIL

Allwedd £M


- Eraill
- UE a Thramor
- Diwydiant a Masnach
- Corfforaethau Cyhoeddus, Awdurdodau Lleol, Llywodraeth y DU
- Cynghorau Ymchwil ac elusennau



## GWARIANT

Allwedd £M

- Gwasanaethau Academaidd 8.1
- Ysgolion Academaidd 47.9
- Costau staff 249.1
- Taliadau Diswyddo Gwirfoddol 7.9
- Dibrisiad 16.2
- Llog sy'n daladwy 1.3
- Preswylfeydd, Arlwyo a Chynadleddau 9.0
- Grantiau a chontractau ymchwil 31.4
- Adeiladau 18.6
- Gweinyddiaeth a Gwasanaethau Canolog 4.0
- Treuliau eraill 11.2
- Gwasanaethau eraill a roddwyd 30.0



## INCWM

Allwedd £M

- Preswylfeydd ac Arlwyo 20.6
- Gwasanaethau a roddwyd 59.9
- Gwaddolion a llog sy'n dderbyniadwy 3.0
- Grantiau gan Gynghorau Cyllido 95.6
- Grantiau a Chontractau Ymchwil 88.2
- Ffioedd a grantiau cymorth 158.8
- Incwm gweithredu arall 10.6

# GRANTIAU, ANRHEGION A RHODDION

Mae Prifysgol Caerdydd yn cydnabod yn ddiolchgar y grantiau, anrhegion a rhoddion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn sy'n cael ei hadolygu. Cafodd y rhain eu derbyn a'u cofnodi'n ganolog gan y Brifysgol oddi wrth y sefydliadau a'r unigolion a restrir. Mae'r Brifysgol hefyd yn dymuno cydnabod y llu o anrhegion, rhoddion a chymynroddion y mae'n eu derbyn yn ddiennw ac am y rhai a roddwyd yn hael, yn uniongyrchol i'w hysgolion academiaidd.

## SEFYDLIADAU

A.V. Griffiths a'i Fab, Trefnwyr Angladdau  
ABBUK  
AbbVie Ltd  
Academi Frenhinol Peirianeg  
Academi'r Colegau Brenhinol Meddygol  
Academi'r Gwyddorau Meddygol  
Adas UK Ltd  
Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau  
Adran Iechyd  
Adran Iechyd  
Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd  
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig  
Afonydd Cymru  
Alstom Grid UK Ltd  
AMS Biotechnology (Europe) Limited  
Analog Devices  
Apêl Cymru dros Ymchwil Lewcemia  
Arolwg Daearegol Prydain  
Asiantaeth Diogelwch Hedfan Ewrop  
Asiantaeth Gofod Ewrop  
Asiantaeth Gwella a Datblygu ar gyfer  
